**CYNGOR (CYFARFOD ARBENNIG)**

**(*CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS*)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **12 Medi 2022** |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Cynghorydd R.W Wood** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Cynghorydd C.Williams** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, C.Clement-Williams, M.Crowley, H.Davies, O.S.Davies, R.Davies, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, S.Grimshaw, J.Hale, M.Harvey, J.Hurley, C.James, S.Jones, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, P.D.Richards, M.Spooner, D.Whitelock, C.Williams, L.Williams a/ac R.W.Wood |
| **Cynghorydd yn ymddiheuro** | Cynghorwyr: H.Davies, S.Harris. L.Jones, R.G.Jones, D.Thomas, D Keogh |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.D.Thomas, A.Jarrett, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, C.Furlow, M.Shaw, S.Curran, J Woodman-Ralph |

---

## 1. CYHOEDDIADAU'R MAER

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod arbennig hwn o'r cyngor a alwyd yn dilyn marwolaeth y Frenhines Elizabeth II ar 8 Medi 2022.

Cynhaliodd y cyngor distawrwydd dwy funud i nodi marwolaeth y diweddar Frenhines, Elizabeth II.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **RHYBUDD O GYNNIG DAN ADRAN 10 RHAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

- **Darllenodd y maer  y cynnig oedd gerbron y cyngor heddiw, sef:.**

*"Mabwysiadu penderfyniad i fynegi ein tristwch dwys am farwolaeth y Frenhines Elizabeth II, ac estyn ein cydymdeimlad dwysaf i Ei Fawrhydi, y Brenin Charles III, ac i aelodau'r teulu brenhinol yn eu colled.".*

Cyn rhoddwyd y cynnig i'r cyngor, talodd yr Aelodau canlynol deyrnged i'r Frenhines Elizabeth II.

- Y Cyng. A.  Llewelyn, Dirprwy Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot:

*Mr Maer,*

*Hoffwn fynegi fy nghydymdeimlad diffuant i'r teulu brenhinol ar farwolaeth y Frenhines.*
*Mae cynifer o newidiadau wedi bod ym mywyd Cymru, Prydain, ac ar draws y byd yn ystod teyrnasiad hir y Frenhines.*
*Mae wedi denu hoffter a pharch yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a bydd llawer o bobl yn dymuno talu teyrnged.*

*Gwelsom hynny ddoe wrth i bobl ddod ynghyd yn y Sgwâr Ddinesig, yn ffodus yn yr heulwen, fel unigolion ac fel cynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol, Cynghorau Cymuned a Thref, ysgolion, gwasanaethau gwahanol, a'n Bwrdeistref Sirol, yng nghwmni'r Arglwydd Raglaw a'r Uchel Siryf.*

*Hoffwn ddiolch i Mrs Karen Jones a'r staff i gyd am eu gwaith caled wrth drefnu'r digwyddiad a nifer o drefniadau eraill mewn cyfnod mor fyr.*

*Diolch, Barchus Faer*

**Y Cynghorydd S Jones, Dirprwy Arweinydd y Democratiaid Annibynnol :**

*"Mr Maer, yn anffodus, nid yw'r Cynghorydd Steve Hunt, Arweinydd y Democratiaid Annibynnol yn gallu bod yma heddiw a hoffwn gyflwyno'r deyrnged ganlynol ar ei ran:*

*Mae'n anrhydedd i mi gael y cyfle hwn i dalu teyrnged i'r diweddar y Frenhines Elizabeth II ar ran y Democratiaid Annibynnol.*

*Dros y dyddiau diwethaf, rydym wedi clywed pobl o bob cwr o'r bydyn cydnabod yr ymroddiad diflino i ddyletswydd a oedd yn arwydd o deyrnasiad y Frenhines Elizabeth.*

*Mae'r ffaith ei bod hi wedi byw i wasanaethu eraill am dros 70 mlynedd yn rhyfeddol.*

*Rydym hefyd wedi clywed am y parch yr oedd gan wleidyddion tuag ati, gyda'r holl gyn-brif weinidogion sydd wedi goroesi a'r prif weinidog presennol yn edmygu ei doethineb a'i gallu i gadw ar ben materion cyfoes.*

*Ond bydd pob un ohonom wedi'n cyffwrdd gan y teyrngedau hynod bersonol a dalwyd gan y Brenin Charles III a'r teulu brenhinol. Iddyn nhw, maent wedi colli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl.*

*Mr Maer, roedd y Frenhines Elizabeth II yn enghraifft wych i bob un ohonom sydd wedi dewis bywyd mewn gwasanaeth cyhoeddus ac ar ran y Democratiaid Annibynnol rwy'n talu teyrnged i hynny.*

*Pan fyddwch chi'n barod Mr Maer, byddaf yn fodlon eilio'r penderfyniad gerbron y cyngor y prynhawn hwn".*

- **Y Cynghorydd J Hale, ar ran Grŵp Plaid Cymru.**

*"Mae'n fraint i mi ychwanegu fy llais ar ran Grŵp Plaid Cymru i'r rheini sy'n talu teyrnged i'r Frenhines Elizabeth III heddiw a hefyd i gydymdeimlo'n ddidwyll â'r Brenin Charles III a'r teulu brenhinol.*

*Mae ymlyniad y Frenhines i fywyd cyhoeddus am dros 70 mlynedd yn ddigyffelyb. Mae hi wedi bod yn bresenoldeb gweladwy a chyson iawn ym mywyd cenedlaethol ac ar draws y byd a byddwn yn gweld eisiau hynny.*

*Mae gen i barch enfawr at y ffordd y gwnaeth hi fyw ei bywyd mewn gwasanaeth cyhoeddus, ac am ei chefnogaeth a'i hymroddiad i'r lluoedd arfog, ei nawdd i lawer o achosion elusennol a'i chalendr*

*helaeth o ymrwymiadau ymhell ar adeg pan fyddai'r rhan fwyaf o bobl eraill yn mwynhau ymddeoliad haeddiannol, mae'n haeddu ein parch. Anrhydeddodd ein diweddar Frenhines yr ymrwymiad a wnaeth yr holl flynyddoedd hynny yn ôl, felly mae'n iawn ein bod yn ei hanrhydeddu heddiw.*

*Mae wedi bod yn amlwg dros y dyddiau diwethaf bod ein Brenin Charles III a'r teulu brenhinol ehangach yn caru'r Frenhines yn fawr.*

*Ar ran Grŵp Plaid Cymru, rwyf am estyn ein cydymdeimlad â'r Brenin Charles 111 a'r teulu brenhinol ehangach ar yr adeg drist hon.*

- **Y Cynghorydd S Reynolds, ar ran y Grŵp Llafur:**

*Ar ran y Grŵp Llafur, gyda thristwch mawr y dysgom am farwolaeth y Frenhines Elizabeth II ar ôl cyfnod hir o wasanaeth i'r wlad hon.*

*Mae ein meddyliau a'n gweddïau gyda'r teulu brenhinol i gyd am eu bod wedi colli mam, mam-gu a hen fam-gu. Nid yw llawer ohonom erioed wedi adnabod neb ar wahân i'r Frenhines fel ein harweinydd cyfansoddiadol a'n brenhines. Ni welwn ei thebyg eto yn ein hoes ni. Beth bynnag yw eich barn am y teulu brenhinol, mae'r Frenhines yn ennyn parch, gan ddal lle unigryw yn ein calonnau ledled y wlad.*

*Gwnaethom ni yng Nghastell-nedd Port Talbot ei chroesawu ar sawl achlysur i'n bwrdeistref sirol. Roedd hyn cyn fy nhymor fel cynghorydd ond rwyf wedi siarad â'r rheini sy'n cofio sefyll yn y glaw yn aros iddi agor yr Afan Lido, ei hymweliad â'r Gwaith Dur a gofir gan fy ngŵr, ei hymweliad â'r 'Metal Box' a nifer o ymweliadau eraill a wnaed i'r Orendy, a ddangoswyd gan y placiau coffa sy'n addurno muriau'r adeilad. Rwy'n siŵr bod llawer mwy o achlysuron.*

*Fel un sydd hefyd yn marchogaeth, roeddwn i'n teimlo drosti pan nad oedd hi'n gallu cymryd ei safle mwyach, lle arferai edrych mor frenhinol mewn achlysuron seremonïol.*

*Gwnaethon ni i gyd gydymdeimlo pan gollodd hi ei gŵr annwyl, Dug Caeredin tua 18 mis yn ôl yn ystod y pandemig.*

*Roedd hi, fel nifer o bobl eraill a ddioddefodd golled ar yr adeg honno, yn dioddef yr unigrwydd o fethu â chael teulu'n agos yn ystod yr angladd ac felly roedd hi'n ysbrydoliaeth i'r rheini ohonom a oedd hefyd ag aelodau agos o'r teulu nad oedd modd eu cysuro yn ystod y cyfnod hwnnw.*

*Dangosodd urddas digyffelyb o ran bywydau cyhoeddus. Mae'r wlad hon yn ddyledus iawn am y 70 mlynedd gogoneddus o'i theyrnasiad. Roedd hi'n wladweinyddes arbennig.*

*Gorffwysed mewn hedd.*

*Duw Gadwo'r Brenin.*

- **Y Cynghorydd C James, ar ran Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Castell-nedd Port Talbot:**

*Roeddwn wedi fy nhristáu'n fawr, fel cynifer o bobl eraill, i glywed am farwolaeth y Frenhines ddydd Iau.*

*Cefais i, fel cynifer o bobl eraill, fy ysbrydoli i ymuno â'r lluoedd arfog gan y gwasanaeth diflino a roddwyd gan y Frenhines Elizabeth II i'r wlad hon.*

*Dangosodd y Frenhines Elizabeth II y gwasanaeth a roddodd i'r wlad hon. Ysbrydolodd hyn y lluoedd arfog. Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi. Oherwydd ei harweinyddiaeth mae'r lluoedd arfog yn cael eu cydnabod a'u parchu ledled y byd.*

*Roedd pawb o'r lluoedd arfog a gyfarfu â'r Frenhines yn ei pharchu ac roedd yr hoffter hwnnw yn cael ei fynegi gan y Frenhines yn ei dro. Byddai'n ymweld â'r lluoedd arfog ar unrhyw gyfle y cai.*

*Yn 2001, cefais yr anrhydedd o arwain y grŵp seremonïol a oedd yn croesawu'r Frenhines a Dug Caeredin ar HMS Illustrious lle cynhaliwyd ymweliad gwladol yn Norwy. Rwy'n cofio'r diwrnod hwnnw bob amser fel un mawreddog.*

*Hoffwn gydymdeimlo'n ddidwyll â'r teulu brenhinol ac mae fy meddyliau a'm gweddïau gyda nhw ar yr adeg hon.*

Diolchodd y Maer i'r holl siaradwyr.

Cynigwyd y cynnig gan y Cynghorydd A Llewelyn ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd S Jones.

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNWYD:** | Bod y cyngor yn cymeradwyo'r penderfyniad i fynegi ein tristwch dwys am farwolaeth y |

| | |
|---|---|
| | Frenhines Elizabeth II, ac estyn ein cydymdeimlad dwysaf i'w Fawrhydi, y Brenin Charles III, ac i aelodau'r teulu brenhinol yn eu colled." |

Diwedd y Cyfarfod.

**CADEIRYDD**